**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-05-1001 / P-05-1018
Ein cyf/Our ref VG/00379/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

19 Ionawr 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Rhagfyr am ddeisebau ynghylch datblygu Canolfan Ganser Felindre newydd.

Cafodd yr achosion busnes amlinellol ar gyfer Canolfan Ganser Felindre newydd, a'i gwaith galluogi, eu hystyried gan Fwrdd Buddsoddi yn Seilwaith y GIG, Llywodraeth Cymru, ar 9 ac 16 Rhagfyr. Roedd hynny'n cynnwys ystyried y cyngor a roddwyd i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gan Ymddiriedolaeth Nuffield. Byddaf yn cael cyngor ffurfiol gan y Bwrdd Buddsoddi mewn Seilwaith yn ystod yr wythnosau nesaf, o ran a ddylid cymeradwyo'r achosion busnes amlinellol ai peidio. Gan ddibynnu ar ganlyniadau'r broses hon, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â'r camau nesaf. Os byddant yn cael eu cymeradwyo, byddai angen Pwynt Cymeradwyo Masnachol, (*Commercial Approval Point*), a byddai angen gwneud asesiad penodol o ran Model Buddsoddi Cydfuddiannol, cyn bod unrhyw gytundeb yn symud ymlaen at drefn gaffael Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

Cynsail galwad eich deisebwr am gynnal ymchwiliad annibynnol i'r model clinigol yw ei bryderon am eirwiredd yr achos sy'n cael ei gyflwyno gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Ym marn eich deisebwr, mae hynny'n golygu bod angen cynnal asesiad annibynnol o achos busnes yr Ymddiriedolaeth o ran y model clinigol. Mae'n bosibl nad yw eich deisebwr yn gwybod bod Llywodraeth Cymru yn dilyn proses graffu hir a manwl wrth ystyried yr achos busnes hwn. Felly, nid wyf yn gweld bod angen cynnal asesiad annibynnol ychwanegol o'r achosion busnes amlinellol. Hefyd ni ddylid ystyried y model clinigol fel elfen ar wahân i weddill yr achos busnes, gan fod agweddau anghlinigol o'r achos busnes yn dylanwadu ar yr agweddau clinigol, ac fel arall.

Hoffwn bwysleisio mai rôl asesu sydd gan Lywodraeth Cymru, hynny yw defnyddio proses graffu i asesu pa mor gadarn yw achos er mwyn dod i benderfyniad a ddylid ei gymeradwyo a'i ariannu. Yn anffodus ni allaf wneud sylwadau pellach ar hyn o bryd, gan y byddai hynny'n niweidio fy ystyriaeth o'r cyngor a geir gan y Bwrdd Buddsoddi mewn Seilwaith.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.